Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin y Bontfaen
# The Broad Shoard
# Bontfaen
# CF71 7DA

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin y Bontfaen sy`n rhan o ddarpariaeth Mudiad Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg. Sefydlwyd y lleoliad yn 2008 yn yr adeilad gyfredol. Mae`r lleoliad o fewn adeilad barod sydd â mynediad uniongyrchol i`r tu allan ar gyfer y plant.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant sy`n mynychu`n dod o`r cyffiniau. Mae tua hanner o`r plant yn dod o gartrefi sydd â`r Saesneg fel prif iaith.

Mae dau ddeg tri o blant yn mynychu ar hyn o bryd, gyda thri yn dair oed. Does dim un ohonynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd. Mae`r lleoliad ar agor am bum bore`r wythnos rhwng 9 y.b. a 11.45 y.b. ar gyfer plant 3 oed a dan 3 oed. Yn y prynhawn, mae`r lleoliad yn derbyn plant hŷn sy`n mynychu ysgol yn y bore yn unig.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer 24 o blant.

Mae`r lleoliad yn cael ei staffio gan arweinydd a benodwyd yn ddiweddar (Ionawr 2015). Mae`n cael ei chynorthwyo gan ddirprwy arweinydd, cynorthwy-ydd a dau fyfyriwr ar leoliad "Cam wrth Gam" am 16 awr yr wythnos. Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant o bob gallu a chefndir. Nid oes un o'r plant ar hyn o bryd wedi eu nodi fel rhai sydd ag anghenion ychwanegol neu o gefndir ethnig.

Mae`r plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ar adeg sy`n cael ei benderfynu gan eu rhieni, ac yn parhau i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC ym mis Ebrill 2013 ac ym mis Ionawr 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r profiadau dysgu sy`n cael eu cynllunio yn gyffrous ac yn ysgogi`r plant i ddysgu
- Mae medrau`r plant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu`n dda
- Mae`r holl blant yn elwa o`r cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu hannibyniaeth a`u medrau meddwl
- Mae`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn cael eu nodi`n glir ac mae`r tasgau`n cyfateb yn dda i`w gallu
- Mae`r berthynas rhwng y staff a`r plant yn dda iawn ac yn seiliedig ar gyd-hoffter a pharch
- Mae trefniadau effeithiol ar waith i annog plant i fwyta ac yfed yn iach ac i gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd
- Mae`r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae gan yr holl blant fynediad gyfartal i`r holl weithgareddau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen
- Mae`r ddogfen hunanarfarnu`n gynhwysfawr, yn fanwl ac yn nodi cryfderau a meysydd datblygu`r lleoliad yn effeithiol
- Mae`r cynllun datblygu`n realistig ac yn gyraeddadwy ac yn targedu`n glir y gwelliannau sy`n cael effaith gadarnhaol ar safonau`r plant
- Mae gan y staff rolau sydd wedi`u nodi`n glir ac yn gweithio`n dda fel tîm
- Mae synnwyr cryf o ddiben sy`n canolbwyntio ar safonau uchel yn amlwg yn y lleoliad
- Mae`r rheini yn gwbl gefnogol o`r lleoliad

## Argymhellion

A1 Adolygu`r cynllunio i sicrhau bod medrau TGCh y plant yn cael eu datblygu`n briodol*

A2 Parhau i wella darpariaeth y lleoliad gan ganolbwyntio ar wella safonau cyflawniad y plant*

*Wedi`u hymgorffori yn y cynllun datblygu ar gyfer y lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau a`r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac mae`r profiadau dysgu`n ennyn diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus. Mae`r gweithgareddau`n cyfateb yn dda i anghenion y plant ac maen nhw`n effeithiol o ran sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae`r cynllunio yn cael ei wneud bob pythefnos ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau a syniadau`r plant. Mae'n hyblyg ac yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i bob plentyn. Mae staff unigol yn cymryd cyfrifoldeb am feysydd penodol o ddysgu. At ei gilydd, mae'r cwricwlwm sy`n cael ei gynllunio`n darparu`r plant â gweithgareddau da a heriol. Mae`r tasgau â ffocws yn cael eu cyfeirio yn dda at ymestyn medrau meddwl y plant ac yn darparu cyfleoedd gwerth chweil iddynt arbrofi gyda phrofiadau newydd. Mae'r cwricwlwm yn cael ei fonitro'n ofalus ac mae hyn yn llwyddo i sicrhau ei fod yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm sydd wedi`i gynllunio yn eang a chytbwys ac yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol a chreadigol.

Mae'r lleoliad yn darparu`r plant â chyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae cofrestru ac amser stori yn cael eu defnyddio`n dda i ddatblygu sgiliau gwrando`r plant ac mae cyfleoedd gwerth chweil yn cael eu darparu i blant ddechrau creu marciau yn yr ystafell ddosbarth a thu allan. Nodwedd nodedig a da o'r cynllunio yw ei fod yn sicrhau bod datblygiad sgiliau wedi'i integreiddio'n dda i mewn i'r gwahanol weithgareddau sy`n rhoi cydlyniad i brofiadau plant. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant heb ddatblygu digon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant yn dda iawn. Mae`r ymarferwyr yn rhoi statws uchel i'r iaith ac yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn

dda gyda'r plant. Mae`r arddangosfeydd a`r arwyddion sy`n defnyddio`r iaith Gymraeg yn cael eu harddangos yn amlwg ac mae geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn cael eu defnyddio`n dda. Mae hyn yn cael effaith dda ar safonau cyflawniad y plant sy`n eu galluogi i barhau â`u haddysg yn yr iaith Gymraeg.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu, er enghraifft Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen. Mae'r cynllunio'n cynnwys astudiaeth o draddodiadau eraill, er enghraifft y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac mae hyn yn llwyddo i gyflwyno`r syniad o oddefgarwch tuag at eraill. Mae`r plant yn gwneud casgliadau ar gyfer Plant mewn Angen, ac mae hyn yn eu galluogi i feddwl am y plant hynny sy'n llai ffodus na nhw.

**Addysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel priodol o bob plentyn. Mae`r ymarferwyr yn darparu profiadau gwerthfawr a diddorol i`r plant er mwyn galluogi`r plant i gael profiadau dysgu effeithiol trwy chwarae a chymryd rhan yn weithredol. Mae cydbwysedd boddhaol rhwng dysgu sy`n cael ei ddewis gan y plentyn a`i gyfeirio gan oedolyn. Yn gyffredinol, mae plant yn profi gweithgareddau arloesol ac ysgogol sy'n eu darparu â heriau gweithredol y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r staff yn fodelau iaith da ac yn defnyddio'r iaith Gymraeg wrth holi ac wrth drafod gyda'r plant. Mae`r plant yn cael eu trochi yn yr iaith ac yn caffael yr iaith yn llwyddiannus. Mae pob plentyn o gefndiroedd Saesneg eu hiaith yn deall geiriau sylfaenol, cyfarwyddiadau a gorchmynion ac mae ychydig yn ymateb gyda geiriau Cymraeg. Mae cwestiynu`n cael ei ddefnyddio`n dda i herio plant ac mae`r plant yn cael eu rheoli'n dda iawn sy`n arwain at ymddygiad da ac agweddau dymunol at dasgau a gweithgareddau. Mae`r ymarferwyr yn cymryd rhan lawn yn y cynllunio, yn cymryd cyfrifoldeb am dasgau ffocws ac yn cael eu briffio'n llawn ynghylch yr hyn sy`n cael ei ddisgwyl ganddynt.

Mae'r holl staff yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol i asesu plant. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o gyflawniad plant, yn enwedig wrth ymgymryd â thasgau ffocws, ac yn cael eu trosglwyddo i`w llyfrynnau asesu unigol. Yn ystod gweithgareddau o'r fath, mae`r staff yn aml yn cynnig adborth llafar adeiladol ac yn rhoi esboniad clir i`r plant o`r hyn sy`n cael ei ddisgwyl ganddynt. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn dda i annog a chymell y plant i ddysgu. Mae hyn yn effeithiol wrth godi safonau. Mae cofnodion gofalus hefyd yn cael eu cadw o'r hyn mae`r plant wedi ei gyflawni ym mhob maes dysgu. Mae`r staff, o ganlyniad, yn cael darlun clir o gyflawniad pob plentyn ac yn paratoi gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda i allu`r plant ac yn nodi'n glir y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer pob plentyn.

Mae`r rhieni yn cael eu darparu â chrynodeb defnyddiol o bynciau`r tymor a geirfa gwerth chweil o eiriau Cymraeg sydd i'w defnyddio. Mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr, gan alluogi rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer hybu iechyd a lles plant. Mae`r plant yn cael eu hannog yn briodol i fwyta'n iach, i gadw'n lân ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae`r profiadau dysgu a`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae amser cylch yn cael ei ddefnyddio`n dda i ddatblygu sgiliau gwrando`r plant, ac i gymryd eu tro wrth siarad. Mae amser byrbryd yn atgyfnerthu pwysigrwydd glendid. Mae`r profiadau o ddydd i ddydd yn rhoi pwyslais priodol a gwerth chweil ar werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac pwysigrwydd ymddygiad da. Yn ogystal, mae amser byrbryd yn cael ei ddefnyddio'n dda er mwyn annog plant i gymryd cyfrifoldeb, fel wrth weini bwyd a helpu i glirio i ffwrdd ar ôl hynny. Mae`r plant yn dysgu am fwydydd sy`n cael eu bwyta mewn gwahanol wledydd yn ystod gwyliau, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, ac mae hyn yn llwyddo i ddatblygu eu chwilfrydedd am bobloedd a'u traddodiadau eraill.

Mae`r plant yn dechrau deall pwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae papur sydd wedi`i ddefnydiio`n cael ei gasglu ac mae bwydydd gwastraff yn cael eu hailgylchu.

Mae gan y lleoliad ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i ddiogelu lles plant. Mae`r ymarferwyr yn cyfarfod â phlant wrth iddynt gyrraedd yn y bore ac yn wyliadwrus pan fyddant yn gadael. Mae`r drysau yn cael eu cadw dan glo ac mae`r plant yn cael eu goruchwylio drwy`r amser pan maen nhw`n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae systemau priodol yn eu lle i gefnogi`r plant sydd wedi`i nodi ag anghenion addysgol ychwanegol posibl gan gynnwys cymorth yn ôl yr angen gan yr awdurdod lleol ac mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar, cefnogol lle mae`r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion ac yn cael mynediad cyfartal i`r holl adnoddau a gweithgareddau. Mae`r plant yn cael eu trin yn deg a`u barn yn cael eu gwerthfawrogi a'u cymryd i ystyriaeth. Lle`n bosibl, mae`r ymarferwyr yn cynnwys syniadau`r plant yn y gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio ac mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau eu diddordebau a'u cymhelliant. Mae`r dathliadau o wyliau, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn annog y plant i adnabod a pharchu amrywiaeth a datblygu eu synnwyr o chwilfrydedd am y byd.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol. Maen nhw`n cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae gan y lleoliad adnoddau priodol gydag offer sy`n briodol i oedran y plant ac sydd o ansawdd da yn gyffredinol. Tanddatblygedig yw`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau TGCh y plant. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn ddigonol. Mae angen datblygu nifer o ardaloedd, yn enwedig yr ardaloedd y tu allan, er mwyn gwneud y mwyaf o'u potensial fel amgylcheddau dysgu. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu. Mae cysylltiadau cymunedol da yn cael eu

datblygu ac mae`r rhieni yn cyfrannu, fel mewn sesiwn o symud i gerddoriaeth cafodd ei weld yn ystod yr arolygiad.  Mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu`r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer y lleoliad a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy`n canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl blant yn cyrraedd eu potensial llawn.  Mae hi'n frwdfrydig ac yn gwbl ymrwymedig i wella'r lleoliad ac mae`n cael ei chefnogi`n dda gan yr holl staff.  Mae rolau`r staff a`u cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac maen nhw`n chwarae rhan arwyddocaol iawn wrth sicrhau bod y lleoliad yn darparu amgylchedd gofalgar a chroesawgar ar gyfer y plant.  Mae synnwyr clir o ddiben yn amlwg yn y lleoliad ac mae`r plant yn awyddus i ddysgu.

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'r staff ac mae hi wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn dda.  Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr ac i nodi a chefnogi anghenion hyfforddi.  Mae'r staff yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac i wella eu perfformiad.  Mae system arfarnu effeithiol yn ei lle.

Mae gan y lleoliad ethos cadarnhaol lle mae`r staff a`r plant yn teimlo`u bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae`r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau da. Maen nhw`n cael eu rheoli'n dda iawn ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r berthynas gyda rhieni a'r pwyllgor rheoli yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned.

Mae'r lleoliad yn ymateb yn dda i fentrau addysgol lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu a gwella ei ddarpariaeth.  Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i hen sefydlu.  Mae strategaethau dysgu`n cael eu gweithredu'n briodol ac mae'r lleoliad yn talu sylw arbennig o dda i ddatblygu medrau Cymraeg y plant.

Mae`r plant yn cael eu hannog i fwyta'n iach ac i lanhau eu dannedd.  Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth yn ogystal â lles a safonau cyflawniad y plant.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r arweinydd, yn yr amser byr mae hi wedi bod yn y lleoliad, wedi cyflawni gwybodaeth drylwyr o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu.  Mae`r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi eu sefydlu'n dda ac mae`r cynllunio strategol yn cynnwys ffocws da ar wella'r ddarpariaeth.

Roedd y broses hunanarfarnu wedi ei wneud ar y cyd â'r awdurdod lleol a staff Mudiad Meithrin ac yn nodi'n glir yr hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.  Mae'r targedau ar gyfer gwelliant yn realistig ac yn gyraeddadwy ac yn canolbwyntio ar les a safonau cyflawniad plant.

Mae`r ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cynllunio a thrafod agweddau ar berfformiad y lleoliad.  Mae'r holl staff yn chwarae rhan weithredol wrth fonitro cyflawniadau plant drwy arsylwi a chraffu ar waith y plant.

Mae cysylltiadau effeithiol rhwng y broses hunanarfarnu a'r targedau yn y cynllun datblygu.

Mae'r lleoliad yn elwa`n sylweddol o'r cydweithio agos â swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae hyn yn cynnwys cyngor yn ystod ymweliadau rheolaidd â'r lleoliad a mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol.  Mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth wella darpariaeth y lleoliad a, wedi hynny, cyflawniad y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant.

Mae partneriaeth buddiol gyda rhieni.  Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a'r cymorth sy`n cael eu dangos gan y staff ac yn falch o'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.  Mae'r lleoliad yn darparu rhieni â throsolwg o weithgareddau'r tymor a geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r pwnc.  Mae`r rhieni di-Gymraeg yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn sy`n eu galluogi i gefnogi eu plant.  Mae`r rhieni`n cael trafodaeth anffurfiol rheolaidd gyda'r staff ynghyd â chyfarfodydd mwy ffurfiol pan fydd cyfle iddynt weld gwaith eu plant.  Mae`r rhieni hefyd yn derbyn adroddiad dyddiol ar y gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae'r lleoliad wedi elwa'n sylweddol o'r bartneriaeth waith agos gyda athrawes gefnogi`r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

Mae partneriaethau cymunedol yn helpu`r plant i ddeall y bobl sy'n eu cefnogi a`u helpu.

Mae partneriaethau anffurfiol gyda'r ysgol gynradd leol, ond nid ydynt wedi datblygu`n ddigonol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas ac mae`r adnoddau`n ddigonol i gefnogi dysgu`r plant.  Yn y cynllun datblygu, mae'r arweinydd wedi eitemeiddio`r hyn sydd angen ei wella pan fydd y cyllid yn caniatáu. Mae`r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac mae aelodau unigol o staff yn defnyddio eu harbenigedd a'u diddordeb yn effeithiol wrth gyflawni rhai meysydd o'r cwricwlwm.  Mae`r staff hefyd yn asesu cynnydd plant.

Mae`r holl staff yn cael mynediad i anghenion hyfforddi addas ac yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella ansawdd y ddarpariaeth a lles plant.  Mae`r staff yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau ac mae system rheoli perfformiad ar waith.

Mae arian yn cael eu dyrannu yn unol â blaenoriaethau`r lleoliad a`r arian sydd ar gael.

At ei gilydd, gan gymryd i ystyriaeth ansawdd y profiadau dysgu, yr addysgu, y gofal a'r gefnogaeth sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |